**ARCHWILIAD**

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD (2018-2033)**

**PEN-Y-BONT AR OGWR**

---

**AGENDA**

**ar gyfer**

**Sesiwn Gwrandawiad 1 Dydd Mawrth 28 Chwefror 2023 10:00 – 17:00**

**Gwrandawiad Rhithwir**

**Paratoi'r Cynllun a Fframwaith Strategol y CDLl**

*Mater – A yw'r CDLl yn cydymffurfio'n gyfreithiol, ac yw Strategaeth y Cynllun wedi'i chyfiawnhau ac yn debygol o fod yn effeithiol wrth sicrhau y gellir diwallu anghenion datblygu Pen-y-bont ar Ogwr mewn ffordd sy'n cyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy?*

1. **Cyflwyniad**
2. **Datganiad Agoriadol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
3. **Materion Gweithdrefnol**
4. **Cwestiynau**

***Paratoi'r Cynllun***

1. A yw'r CDLl wedi'i baratoi yn unol â gofynion:
   a) Y Cytundeb Cyflawni a gymeradwywyd gan gynnwys y Cynllun Cynnwys y Gymuned?
   b) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)? a
   c) Deddf Cydraddoldeb (2010)?
2. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Gwerthusiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol trylwyr? A yw holl effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol y Cynllun a'r holl syniadau amgen rhesymol wedi'u nodi, eu disgrifio a'u gwerthuso?
3. A yw'r Cynllun wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trylwyr? Pan fo effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol wedi'u nodi, a oes Asesiad Priodol wedi'i gynnal?
4. A yw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystyried cyngor Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefelau ffosffad mewn Ardal Cadwraeth Arbennig Afonydd?
5. A yw'r Cynllun yn gyson â Cymru Dyfodol: Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?
6. A yw'r Cynllun wedi ystyried gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran y nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio?
7. A fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn polisi cenedlaethol neu amgylchiadau lleol ers y Cynllun Datblygu Lleol adnau? Os bu newidiadau, beth yw goblygiadau'r rhain ar gyfer y Cynllun? Oes angen mynd i'r afael â nhw drwy baratoi tystiolaeth newydd a/neu ddiwygio'r Cynllun? Beth yw amserlen arfaethedig y gwaith hwn?

*Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth*

8. Oes digon o ddyhead yng Ngweledigaeth y Cynllun ac a yw'n ddigon penodol i ardal i ffurfio sail i gynlluniau hyd at 2033? Sut byddan nhw'n cael eu cyflawni?
9. A yw amcanion y Cynllun yn SMART ac yn gallu cyflawni'r Weledigaeth a nodwyd?
10. A yw Strategaeth Twf a Gofodol y Cynllun yn cynrychioli dull priodol o gyflawno, rheoli a dosbarthu twf dros gyfnod y Cynllun?
    a) Sut mae'r Strategaeth Twf a Gofodol wedi'i llunio ac yw wedi'i seilio ar dystiolaeth drylwyr?
    b) Beth yw cydrannau allweddol y Strategaeth Twf a Gofodol a sut maen nhw'n rhyngweithio?
    c) A yw'r Strategaeth Twf a Gofodol yn cynrychioli dull cynaliadwy o gynllunio dros gyfnod y cynllun? A yw'n cysylltu'n effeithiol â thrafnidiaeth, cyflogaeth a thwf preswyl?
    d) A yw'r Strategaeth Twf a Gofodol yn gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd yn flaenorol? A yw'n mabwysiadu'r dull dilyniannol i ryddhau tir fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru?
    e) A yw'r Strategaeth a'r fframwaith polisi'n gyson â'r polisi cynllunio cenedlaethol yn ymwneud â Risg Llifogydd?
    f) A yw'r Strategaeth Twf a Gofodol yn gyson â'r rhai mewn awdurdodau cyfagos? Beth yw'r prif faterion trawsffiniol a sut ymdriniwyd â'r rhain?
11. Sut lluniwyd yr Hierarchaeth Aneddiadau, ac a yw wedi'i seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy?
    a) Beth yw diben yr hierarchaeth aneddiadau? A fydd yn llywio datblygiad newydd i'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy? A yw'n glir pa fathau a faint o ddatblygiad, ac eithrio tai, fydd yn briodol ym mhob haen o'r hierarchaeth?
    b) Beth yw sail resymegol y cyfrannau datblygu wedi'u rhannu ar draws yr haenau?
    c) A yw ffiniau'r aneddiadau wedi'u llunio'n ddigon eang i alluogi'r twf a ragfynegir?
12. Sut lluniwyd y Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy? A yw wedi'i seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy?
13. Sut diffiniwyd yr Ardal Twf Adfywio a'r Ardal Twf Cynaliadwy ac a ydyn nhw wedi'u seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy?
14. A yw'r dull o ddewis safleoedd yn ddigon clir a thryloyw, ac a yw wedi'i seilio ar dystiolaeth drylwyr a chredadwy?
    a) A yw'r safleoedd a ddyrennir wedi'u seilio ar fethodoleg asesu safleoedd trylwyr sy'n ystyried yr holl gyfyngiadau posibl?
    b) A yw'r holl ofynion seilwaith wedi'u hystyried i sicrhau gallu safleoedd a ddyrennir i gael eu darparu'n amserol?
15. A yw'n glir pam dewiswyd y Safleoedd Datblygu Strategol dros ddarpar safleoedd eraill? A yw'r Cynllun yn dibynnu'n ormodol ar ddarparu'r safleoedd hyn?
16. Sut bydd y Cynllun yn cymhwyso egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy?
17. A fydd gofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, yn effeithio ar ddatblygu capasiti, hyfywedd a/neu allu safleoedd i gael eu darparu'n amserol o ran systemau draenio cynaliadwy?

18. Sut bydd y Cynllun yn ceisio lliniaru effaith newid hinsawdd?
19. Sut bydd y cynllun yn mynd i'r afael â materion y Gymraeg?
20. A fydd y Cynllun yn cael ei gefnogi gan Ganllawiau Cynllunio Atodol? Beth fydd statws y Cynlluniau Lleoedd a sut byddan nhw'n cysylltu â'r CDLl?